

Mae hwn yn ddatganiad o'n hymrwymiad fel sefydliad i gydymffurfio â'n hymrwymiaidau a nodir yn yr Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a gyflwynwyd i ni gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 6 Tachwedd 2017.

Bod yn agored ynghylch y Safonau

1. Rydym ni wedi cyhoeddu copi llawn o'n Hysbysiad Cydymffurfio ar ein gwefan fel ei fod ar gael yn hawdd i ddefnyddwyr ein gwasanaeth ac i'r cyhoedd. Mae hefyd ar gael i'n holl staff mewn ffurf electronig. Mae'n dangos yr hyn mae dyletswydd arnom ni i'w gyflawni a'i ddarparu o ran Safonau'r Gymraeg. Cynhwysir yr holl safonau sy'n berthnasol i ni o ran *cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredu a chadw cofnodion* yn y ddogfen.

Sut rydym ni'n bwriadu cydymffurfio

2. Rydym ni'n bwriadu cydymffurfio'n llawn â'r safonau sy'n berthnasol i ni, trwy weithredu'r trefniadau, prosesau a chyfleusterau sy'n ofynnol gan y safonau heb unrhyw eithriadau. Byddwn yn gwneud hyn trwy sicrhau bod gennym ni adnoddau digonol yn eu lle a'r *ewyllys i gyflawni*. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod canran y staff ac aelodau tribiwnlys sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn y sefydli o leiaf yn hafal i'r canran cyfatebol yn y boblogaeth gyffredinol yng Nghymru. Byddwn hefyd yn annog a chefnogi dysgu'r Gymraeg yn ein sefydliad. Yn ychwanegol byddwn yn parynu gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd unrhyw adeg y bo hynny'n ofynnol.
3. Byddwn yn rhoi safonau'r Gymraeg wrth graidd ein diwylliant trwy ganolbwyntio'n barhaus ar ofynion y safonau ac ar wella'r hyn rydym ni'n ei ddarparu o ran y Gymraeg. Byddwn yn gwneud hyn ar y lefelau uchaf yn ein sefydliad (h.y. y Cyngor Llywodraeth a'r tîm rheoli gweithredol) trwy sicrhau bod materion y Gymraeg bob amser yn eitem sefydlog ymhob cyfarfod ffurfiol. Fe wnawn hyn yn is i lawr yn y sefydliad trwy ffurfio tîm o staff sy'n siarad Cymraeg, a fydd yn monitro ac yn arloesi, ac a fydd yn adrodd i ac yn dylanwadu ar y tîm rheoli gweithredol. Byddwn yn cynnwys gofynion y safonau yn ein gweithdrefnau a'n llawlyfrau ysgrifenedig, fel bo'n briodol. Fel sylfaen i'n hymwybyddiaeth ynghylch y Gymraeg fel sefydliad mae holl staff ac aelodau'r tribiwnlys yn derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth am y Gymraeg.

Sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio

4. Rydym ni wedi cyflwyno'r trefniadau a ganlyn i oruchwyllo ein bod yn cydymffurfio fel sefydliad:
 - Mae gan y tîm rheoli gweithredol eitem safonol ymhob un o'i gyfarfodydd i fonitro unrhyw faterion cyfredol ynghylch y Gymraeg yn y sefydliad.
 - Mae'n ofynnol i'r Prif Weithredwr adrodd ynghylch materion yn ymwneud â'r Gymraeg a safonau'r Gymraeg ymhob cyfarfod chwarterol Cyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys.

- Ffurfiwyd tîm o staff sy'n siarad Cymraeg i fonitro materion y Gymraeg yn y sefydliad, ac i gynghori ar ddarparu gwasanaethau a safonau cydymffurfio, a gwneud awgrymiadau sut i newid a gwella.

5. Rydym ni wedi dilyn y camau isod i hyrwyddo'r gwasanaethau a gynigiwn ac i hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hyn:

- Mae ein gwefan yn ddwyieithog ac yn cael ei chyflwyno'n glir fel gwefan ddwyieithog. Mae'n cynnwys cyfleuster amlwg ar bob tudalen i newid o un iaith i'r llall.
- Mae pob llythyr a neges e-bost yn cynnwys datganiad dwyieithog y croesewir defnyddio'r Gymraeg, ac na fydd defnyddio'r Gymraeg yn arwain at oedi.
- Mae negeseuon e-bost a anfonir gan staff sy'n rhugl yn y Gymraeg yn datgan yn glir bod y swyddog yn siaradwr Cymraeg. Mae'r rhai a anfonir gan ddysgwyr yn datgan bod y swyddog yn dysgu'r Gymraeg.
- Rydym ni'n anfon cerdyn post i'w gadw yn hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg gyda'n cydnabyddiaeth ffurfiol ein bod wedi derbyn apêl. Mae'r cardiau post hyn yn cynnwys y logo Cymraeg a datganiad yn croesawu defnyddio'r Gymraeg trwy gydol y broses apêl. Fe'u dyluniwyd i annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg os nad ydynt eisoes wedi dechrau'r broses apêl yn yr iaith.
- Mae pob galwad ffôn ac ymwelwyr i'r swyddfa yn cael eu cyfarch yn ddwyieithog.
- Mae ein holl daflenni gwybodaeth ar gael yn Gymraeg ac mae ein taflenni Saesneg yn hyrwyddo bod fersiwn Gymraeg ar gael yn glir
- Mae ein holl arwyddion mewn gwrandawiaidau tribiwnlys yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf.

Gweithdrefnau cwynion

6. Bydd unrhyw gwynion yn ymwneud â chydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg yn cael eu trin dan ein polisi a gweithdrefn gwynion sy'n bodoli eisoes. Os ydym ni'n canfod, yn dilyn ymchwiliad i gwyn, diffyg cydymffurfio gyda safon y mae'n ddyletswydd arnom ei chyflawni, byddwn yn ymddiheuro ac yn cywiro hynny i'r dyfodol. Mae'r holl staff wedi eu hyfforddi i weithredu ein gweithdrefn gwynion ar adeg cynefino gyda'u swydd.

7. Er ei bod yn bosibl cwyno'n uniongyrchol wrth Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch diffyg cydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg, mae'n well i achwynydd ddod yn uniongyrchol atom ni yn gyntaf. Os ydym ni wedi methu â chydymffurfio byddwn yn awyddus i gywiro hynny. Os ydym ni'n anghytuno gyda chwyn, gall yr unigolyn fynd at Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch y mater ar ôl i ni ymchwilio iddo. Felly nid oes dim i'w golli trwy drafod y mater gyda ni yn gyntaf. Os oes rhywbeth wedi mynd o'i le dyma fydd y ffordd gyflymaf o gywiro'r sefyllfa.

Perthynas y datganiadau yn y ddogfen hon i'r safonau a gynhwysir yn ein Hysbysiad Cydymffurfio

8. Lluniwyd paragraff 1 uchod mewn ymateb i'n hymrwymadau dan y safonau a ganlyn:

149, 155, 161, 167

9. Lluniwyd paragraffau 2 a 3 uchod mewn ymateb i'n hymrwymadau dan y safonau a ganlyn:

153, 159, 165

10. Lluniwyd paragraffau 4 a 5 uchod mewn ymateb i'n hymrwymadau dan y safonau a ganlyn:

151, 157, 163

11. Lluniwyd paragraffau 6 a 7 uchod mewn ymateb i'n hymrwymadau dan y safonau a ganlyn:

150, 156, 162